# Côd Darlledu Ofcom

Mai 2005

**CYNNWYS**


Rhagair

Cefndir Deddfwriaethol y Côd

Sut i Ddefnyddio'r Côd

**ADRAN 1:** **Diogelu'r Rhai Dan Ddeunaw Oed**

**ADRAN 2:** **Niwed a Sarhad**

**ADRAN 3:** **Trosedd**

**ADRAN 4:** **Crefydd**

**ADRAN 5:** **Didueddrwydd Dyladwy a Chywirdeb Dyladwy ac Amlygrwydd Gormodol Barnau a Safbwyntiau**

**ADRAN 6:** **Etholiadau a Refferenda**

**ADRAN 7:** **Tegwch**

**ADRAN 8:** **Preifatrwydd**

**ADRAN 9:** **Nawdd**

**ADRAN 10:** **Cyfeiriadau Masnachol a Materion Eraill**

**ATODIAD 1:** **Dyfyniadau o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003**

**ATODIAD 2:** **Dyfyniadau o'r Gyfarwyddeb Teledu heb Ffiniau (89/552/EEC), fel y'i newidiwyd gan (97/36/EC)**

**ATODIAD 3:** **Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol**

**ATODIAD 4:** **Hyrwyddiadau Ariannol ac Argymhellion Buddsoddi**

**MYNEGAI**

## Rhagair

Mae'r Senedd wedi ymddiried i Ofcom (y Swyddfa Cyfathrebiadau) y dasg o osod safonau ar gyfer cynnwys darlledu teledu a radio sy'n unoli ac yn moderneiddio'r rheiny a osodwyd gan y rheoleiddwyr blaenorol – y Comisiwn Teledu Annibynnol ar gyfer teledu masnachol, yr Awdurdod Radio ar gyfer radio masnachol a'r Comisiwn Safonau Darlledu ar faterion yn ymwneud â chwaeth, gwedduster, tegwch a phreifatrwydd. Datblygwyd y Côd Darlledu hwn ar adeg o newid sydyn mewn dosbarthu cynnwys clyweledol ac ehangu dewis mewn teledu a radio i'r rhan fwyaf o gartrefi.

Mae gan fwyafrif o gartrefi deledu aml-sianel digidol bellach a mynediad at radio digidol. Hefyd, mae cynnwys clyweledol drwy'r rhyngrwyd - cyfrwng nad yw'n cael ei reoleiddio gan Ofcom - yn cynyddu. Mae'r datblygiadau technolegol hyn, patrymau defnyddio sy'n newid a datblygiadau ehangach mewn agweddau cymdeithasol tuag at ddarlledu yn arwain at newidiadau parhaus yn nisgwyliadau cynulleidfaoedd. Mae'r disgwyliadau hynny'n ffactor allweddol y mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom ei ystyried wrth osod safonau ar gyfer gwasanaethau teledu a radio. Yn fwy penodol nag erioed o'r blaen, mae'r ddeddfwriaeth yn gwneud y cyd-destun y caiff cynnwys ei ddarlledu yn ffocws safonau rheoleiddio. Mae cynulleidfaoedd yn disgwyl cynnwys heriol a chreadigol, wrth eisiau cynnal y safonau hynny hefyd, ac, yn benodol, i blant gael eu diogelu rhag deunydd anaddas. Ein dyletswydd yw diogelu'r rhai dan ddeunaw oed, a rhennir y cyfrifoldeb hwnnw hefyd gyda rhieni, y rheiny sy'n gofalu am blant a phobl ifanc, yn ogystal â'r darlledwyr.

Mae'r Senedd wedi rhoi dyletswydd benodol i Ofcom yn ogystal i hyrwyddo llythrennedd cyfryngau. Bydd hyn yn rhoi'r arfau i wylwyr a gwrandawyr y dyfodol gael dealltwriaeth fwy o'r cyd-destun y caiff cynnwys ei ddarlledu, ac felly arfer mewn modd gwybodus y dewis cynyddol sydd ar gael iddynt.

Mae'r Côd hwn yn gynnyrch ymgynghori helaeth â darlledwyr, gwylwyr a gwrandawyr a phartïon eraill sydd â diddordeb. Credwn fod yr egwyddorion sylfaenol yn rhai cadarn a gwydn, ac y gall eu cymhwyso ddatblygu wrth i ddarlledwyr ddod o hyd i ffyrdd newydd o gyrraedd ac ymgysylltu â'u cynulleidfaoedd.

Mae'r safonau yn y Côd hwn wedi'u ffurfio ar gyfer teledu a radio. Ar lefel Ewropeaidd, mae trafodaethau wedi cychwyn ar reoliadau Ewrop-gyfan, nad ydynt wedi cael eu newid yn

sylweddol am fwy na degawd. Penderfynir pa mor eang, neu gul, y dylid cymhwyso'r rheoliadau hynny. Mae'n bwysig felly, wrth i ni fynd i mewn i'r broses honno, bod gan y DG fframwaith clir ar gyfer y cyfryngau darlledu, sydd â phŵer allweddol o hyd i lunio'n barn fel dinasyddion ac i gyfrannu at ddadlau democrataidd.

Mae rhyddid mynegiant wrth galon unrhyw wladwriaeth ddemocrataidd. Mae coleddu barn a chael a rhoi gwybodaeth a syniadau yn hawl hanfodol. Mae cysylltiad cynhenid rhwng darlledu a rhyddid mynegiant. Fodd bynnag, daw dyletswyddau a chyfrifoldebau law yn llaw â hawliau felly. Bydd pennu egwyddorion a rheolau clir yn caniatáu mwy o ryddid i ddarlledwyr fod yn greadigol, a mwy o ryddid i gynulleidfaoedd arfer eu dewisiadau, gan sicrhau'r amcanion hynny a osodwyd gan y Senedd. Mae'r ffocws ar gynulleidfaoedd sy'n oedolion yn gwneud dewisiadau gwybodus o fewn fframwaith rheoleiddiol sy'n rhoi disgwyliad rhesymol iddynt o'r hyn y byddant yn ei dderbyn, gan ddiogelu'n gadarn ar yr un pryd y rheiny sy'n rhy ifanc i arfer dewisiadau cwbl wybodus iddynt hwy eu hunain.

**Richard Hooper**
**Cadeirydd, Bwrdd Cynnwys Ofcom**

## Cefndir Deddfwriaethol y Cod[1]

Mae'n ofynnol i Ofcom dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf") a Deddf Darlledu 1996 (fel y'i newidiwyd) ("Deddf 1996") i lunio côd ar gyfer teledu a radio, yn cwmpasu safonau rhaglenni, nawdd, tegwch a phreifatrwydd. Mae'r Côd hwn i'w adnabod fel Côd Darlledu Ofcom ("y Côd").

Caiff darlledwyr eu hatgoffa o'r cefndir deddfwriaethol sydd wedi cyfrannu at y rheolau, yr egwyddorion sy'n berthnasol i bob adran, yr ystyron a roddwyd gan Ofcom ac o'r arweiniad a roddwyd gan Ofcom, y gall pob un ohonynt fod yn berthnasol wrth ddehongli a chymhwyso'r Côd. Ni ddylid darllen unrhyw reol ar ei phen ei hun, ond yn hytrach o fewn cyd-destun y Côd cyfan, gan gynnwys y penawdau, croesgyfeiriadau a thestun cysylltiol arall.

Wrth osod y safonau hyn, mae'n rhaid i Ofcom sicrhau'r safonau y mae'r amcanion yn eu pennu yn y Ddeddf. Golyga hyn nid yn unig osod safonau gofynnol, ond safonau eraill yn ogystal fel y byddant yn briodol. (Gweler adrannau 3(1)(a) a (b), (2)(e) ac (f) a (4)(b)(g)(h)(j)(k) ac (l), 319, 320, 321 a 326 y Ddeddf ac adrannau 107(1) Deddf 1996. Gellir gweld y darnau hyn yn Atodiad 1 y Côd.)

Hefyd, mae'r Côd yn rhoi mewn grym nifer o ofynion yn ymwneud â theledu yng Nghyfarwyddeb yr UE 89/552/EEC, fel y'i newidiwyd gan Gyfarwyddeb yr UE 97/36/EC ("Y Gyfarwyddeb Teledu Heb Ffiniau"). Gellir gweld dyfyniadau yn Atodiad 2 y Côd.

Cafodd y Côd ei ddrafftio yng ngolau Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y Confensiwn). Yn benodol, mae'r hawl i ryddid mynegiant, fel y nodwyd yn Erthygl 10 y Confensiwn, yn cwmpasu hawl y gynulleidfa i dderbyn deunydd creadigol, gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth, ond yn amodol ar gyfyngiadau a bennwyd gan y gyfraith ac sy'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd. Mae'r Erthygl hon, ynghyd ag Erthygl 8 yn ymwneud â'r hawl i fywyd preifat a theulu person, cartref a gohebiaeth; Erthygl 9, yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd; ac Erthygl 14, yr hawl i fwynhau hawliau dynol heb wahaniaethau ar sail rhyw, hil a chrefydd, i'w gweld yn Atodiad 3 i'r Côd hwn.

Oni nodwyd yn benodol fel arall, mae'r Côd yn berthnasol i gynnwys radio a theledu (gyda rhai eithriadau yn achos y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig ("y BBC") – gweler isod) mewn gwasanaethau a drwyddedir gan Ofcom, gwasanaethau a ariennir gan ffi'r drwydded a ddarperir gan y BBC ac i Sianel Pedwar Cymru ("S4C").

Mae'n ofynnol i ddarlledwyr yn ôl telerau'u trwydded Ofcom i gydymffurfio â'r Côd Safonau a'r Côd Tegwch, sydd i'w dehongli fel cyfeiriadau at y Côd hwn. Mae'n ofynnol i ddilyn y Côd hwn yn ogystal yn achos y BBC yn ôl Cytundeb y BBC,[2] ac yn achos S4C, yn ôl statud. Ac

[1] Yn y Côd Darlledu hwn, lle mae'r cyd-destun yn caniatáu, mae cyfeiriadau at unrhyw ddarpariaethau deddfwriaethol, boed mewn deddfwriaeth gynradd neu eilaidd, yn cynnwys cyfeiriad at y darpariaethau hynny fel y'u newidiwyd neu fel y'u hail-ddeddfwyd, neu wrth i'w cymhwysiad gael ei newid gan ddarpariaethau eraill o dro i dro; bydd unrhyw gyfeiriad at ddarpariaeth statudol yn cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed o dro i dro dan y ddarpariaeth honno.

[2] Cytundeb y BBC yw'r Cytundeb dyddiedig 25 Ionawr 1996 rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Dreftadaeth Genedlaethol (bellach yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant,

eithrio lle datgan y Côd fel arall, mae'r term "darlledwyr teledu" yn cyfeirio at ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni teledu (gan gynnwys unrhyw wasanaethau teledu lleol fel gwasanaethau teledu cyfyngedig), y BBC ac S4C, ac mae "darlledwyr radio" yn cyfeirio at ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni radio (gan gynnwys gwasanaethau radio lleol a chymunedol a gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol) a'r BBC. Nid yw Adrannau Pump, Chwech, Naw a Deg o'r Côd yn berthnasol i wasanaethau'r BBC a ariennir gan ffi'r drwydded neu gymorth grant.

Dan y Ddeddf, darparwr gwasanaeth yw'r sawl sydd â "rheolaeth gyffredinol" dros ba raglenni a chyfleusterau eraill a gwasanaethau sy'n cael eu cynnwys yn y gwasanaeth (adran 362(2) y Ddeddf).

Mae rheolaeth gyffredinol yn ehangach na rheolaeth olygyddol yn gymaint â'i fod yn cynnwys rheolaeth dros wasanaethau a chyfleusterau y darperir mynediad iddynt (er enghraifft drwy gynnwys yn y prif wasanaeth gyswllt neu gyfleuster at nodweddion rhyngweithiol) ac na all y darlledwr gael rheolaeth olygyddol drostynt.

Er y gall cyswllt a gynhwysir yn y gwasanaeth arwain at nodweddion y tu allan i'r gwasanaeth hwnnw nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan Ofcom, mae darparu mynediad i'r nodweddion hynny drwy, er enghraifft, gynnwys cyswllt, o fewn rheolaeth y darlledwr, ac o fewn cylch gwaith Ofcom felly. Gall Ofcom felly bennu gofyniad bod cyswllt neu gyfleuster felly'n cael ei ddileu lle mae gan Ofcom bryderon, yng ngolau ei ddyletswyddau statudol, ac, yn benodol, yr amcanion safonau a nodir yn adran 319 y Ddeddf, ynghylch y deunydd y mae'n arwain ato. Beth bynnag, rhaid i'r trosglwyddo o reolaeth darlledwr i drydydd parti fod yn glir i'r gwyliwr, er mwyn rheoli disgwyliadau'r gynulleidfa mewn perthynas â'r deunydd y maent yn cael ei harwain ato, a'r risg i'r darlledwr o ganfod ei fod yn torri'r Côd hwn (er enghraifft, Rheolau 1.2 a 2.1).

Lle mae'r Côd wedi'i dorri, bydd Ofcom fel arfer yn cyhoeddi canfyddiad ac yn esbonio pam mae darlledwr wedi torri'r Côd (mae'r canfyddiadau hyn ar gael ym Mwletinau Darlledu Ofcom yn www.ofcom.org.uk). Lle mae darlledwyr yn torri'r Côd yn fwriadol, yn ddifrifol neu dro ar ôl tro, gall Ofcom bennu cosbau statudol yn erbyn y darlledwr. Mae gweithdrefnau Ofcom ar gyfer ymchwilio i achosion (yn dilyn derbyn cwyn neu fel arall) a chymhwyso cosbau statudol i ddarlledwyr, ar y wefan yn ogystal. Gall aelodau'r cyhoedd nad oes ganddynt fynediad i'r we ofyn i Ofcom anfon copi o'r gweithdrefnau atynt drwy'r post.

Mae'r Côd wedi'i rannu'n adrannau a dynnwyd yn bennaf o'r amcanion fel y'u nodir yn adran 319(2) y Ddeddf ac adran 107(1) Deddf 1996, yn ogystal â Deddf Cynrychiolaeth y bobl 1983 (fel y'i newidiwyd).

---

y Cyfryngau a Chwaraeon) a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig fel y'i diwygiwyd gan y Newidiad dyddiedig 4 Rhagfyr 2003 (neu amnewidiad o hynny).

## Sut i Ddefnyddio'r Côd

Caiff y côd ei osod allan fel egwyddorion, ystyron a rheolau, ac, ar gyfer Adrannau Saith: Tegwch ac Wyth: Preifatrwydd, mae hefyd yn cynnwys set o "arferion i'w dilyn" gan ddarlledwyr. Mae'r egwyddorion yno i helpu darllenwyr i ddeall yr amcanion safonau ac i gymhwyso'r rheolau. Rhaid i ddarlledwyr wneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio â'r rheolau fel y'u nodir yn y Côd. Mae'r ystyron yn helpu esbonio'r hyn a olyga Ofcom gan rai o'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Côd. Mae'r ddeddfwriaeth ddarlledu fwyaf perthnasol wedi'i nodi dan bob pennawd adran, er mwyn i ddarllenwyr allu troi at y ddeddfwriaeth os dymunant.

Wrth gymhwyso'r Côd i'r cynnwys, dylai darlledwyr fod yn ymwybodol bod y cyd-destun y mae'r deunydd yn ymddangos ynddo yn allweddol. Wrth osod y Côd hwn, mae Ofcom wedi ystyried y canlynol (fel sy'n ofynnol gan adran 319(4) y Ddeddf):

(a) graddau'r niwed neu'r tramgwydd sy'n debygol o gael ei achosi, gan gynnwys unrhyw fath penodol o ddeunydd mewn rhaglenni'n gyffredinol neu mewn rhaglenni o ddisgrifiad penodol;

(b) maint a chyfansoddiad tebygol y gynulleidfa bosibl ar gyfer rhaglenni a gynhwysir mewn gwasanaethau teledu a radio'n gyffredinol neu mewn gwasanaethau teledu a radio o ddisgrifiad penodol;

(c) disgwyliad tebygol y gynulleidfa o ran natur cynnwys rhaglen a'r graddau y gellir dod â natur cynnwys rhaglen i sylw aelodau potensial y gynulleidfa;

(d) tebygolrwydd y bydd personau nad ydynt yn ymwybodol o natur cynnwys rhaglen yn agored yn anfwriadol, gan eu gweithredoedd eu hunain, i'r cynnwys hwnnw;

(e) dymunoldeb sicrhau bod cynnwys y gwasanaethau'n nodi pan fydd newid sy'n effeithio ar natur gwasanaeth sy'n cael ei wylio neu y gwrandewir arno ac, yn benodol, newid sy'n berthnasol i gymhwyso'r safonau a osodwyd dan yr adran hon;

(f) dymunoldeb cadw annibyniaeth rheolaeth olygyddol dros gynnwys rhaglenni.

Mae'r meini prawf hyn wedi cyfrannu at ymagwedd Ofcom tuag at osod y Côd, a rhaid i ddarlledwyr eu hystyried felly wrth ddehongli'r rheolau.

Nid bwriad y Côd yw delio â phob achos a allai godi. Gall darlledwyr wynebu nifer o sefyllfaoedd unigol na chyfeirir atynt yn benodol yn y Côd hwn. Nid yw'r enghreifftiau a gynhwysir yn y Côd yn gyflawn. Fodd bynnag, dylai'r egwyddorion, fel y'u hamlinellir yn yr adrannau canlynol, esbonio'n eglur yr hyn y bwriadwyd i'r Côd ei gyflawni, a helpu darlledwyr i lunio'r barnau angenrheidiol.

I gynorthwyo ymhellach y rheiny sy'n gweithio mewn darlledu, yn ogystal â gwylwyr a gwrandawyr sy'n dymuno deall safonau darlledu, bydd arweiniad anghyfrwymol i fynd law yn llaw â'r Côd yn cael ei ddosbarthu gan Ofcom ar wefan Ofcom, ac fe'i adolygir yn gyson.

Dylai darlledwyr fod yn gyfarwydd â'u cynulleidfaoedd a sicrhau y gall cynnwys rhaglenni gael ei gyfiawnhau o hyd gan y cyd-destun ac anghenion golygyddol y rhaglen. (Yn y Côd, cymerir bod y gair 'rhaglenni' yn golygu rhaglenni teledu a rhaglenni/rhaglennu radio.)

Gall darlledwyr wneud unrhyw raglenni am unrhyw fater a ddewisant, ond disgwylir y bydd y darlledwyr yn sicrhau bob amser bod eu rhaglenni'n cydymffurfio â'r gyfraith gyffredinol, yn ogystal â'r Côd.

### Arweiniad cyffredinol ar y Côd

Cyfrifoldeb y darlledwyr yw cydymffurfio â'r Côd. Dylai gwneuthurwyr rhaglenni y mae angen cyngor pellach arnynt ar gymhwyso'r Côd hwn, siarad yn y lle cyntaf â'r rheiny â chyfrifoldeb golygyddol am y rhaglen ac â swyddogion cydymffurfio a chyfreithiol y darlledwr.

Gall Ofcom gynnig arweiniad cyffredinol ar ddehongli'r Côd. Fodd bynnag, rhoddir unrhyw gyngor felly ar y ddealltwriaeth fanwl na fydd yn effeithio ar ddisgresiwn Ofcom i farnu achosion a chwynion ar ôl darlledu, ac na fydd yn effeithio ar arfer cyfrifoldebau rheoleiddio Ofcom. Dylai darlledwyr gael eu cyngor cyfreithiol eu hunain ar unrhyw faterion cydymffurfio sy'n codi. Ni fydd Ofcom yn atebol am unrhyw golled neu niwed yn codi o ddibyniaeth ar arweiniad anffurfiol.

**Adran Un:**

# Diogelu'r rhai dan Ddeunaw Oed

(Mae deddfwriaeth berthnasol yn cynnwys, yn benodol, adran 3(4)(h) a 319(2)(a) ac (f) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, Erthygl 22 o'r Gyfarwyddeb Teledu Heb Ffiniau, Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.)

Rhaid darllen yr adran hon ar y cyd ag Adran Dau: Niwed a Sarhad.

**Egwyddor**

**Sicrhau bod pobl dan ddeunaw oed yn cael eu diogelu.**

**Rheolau**

**Amserlennu a gwybodaeth am gynnwys**

1.1 Rhaid peidio â darlledu deunydd a allai amharu'n ddifrifol ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol pobl dan ddeunaw oed.

1.2 Wrth ddarparu gwasanaethau, rhaid i ddarlledwyr gymryd pob cam rhesymol i ddiogelu pobl dan ddeunaw oed. Ar gyfer gwasanaethau teledu, mae hyn yn ychwanegol at eu rhwymedigaethau'n deillio o'r Gyfarwyddeb Teledu Heb Ffiniau (yn benodol, Erthygl 22, gweler Atodiad 2).

1.3 Rhaid i blant gael eu diogelu hefyd gan amserlennu priodol rhag deunydd sy'n anaddas ar eu cyfer.

Ystyr "plant":

Plant yw pobl dan bymtheg mlwydd oed.

Ystyr "amserlennu priodol":

Dylid barnu amserlennu priodol yn ôl:

- natur y cynnwys;
- nifer ac ystod oed tebygol plant yn y gynulleidfa, gan ystyried oriau ysgol, penwythnosau a gwyliau;
- amser dechrau ac amser gorffen y rhaglen;
- natur y sianel neu'r orsaf a'r rhaglen benodol; a
- disgwyliadau tebygol y gynulleidfa am sianel neu orsaf benodol ar amser penodol ac ar ddiwrnod penodol.

1.4 Rhaid i ddarlledwyr teledu gadw at y trothwy.

Ystyr "y trothwy":

Mae'r trothwy yn berthnasol i deledu'n unig. Mae'r trothwy am 2100. Ni ddylai deunydd sy'n anaddas i blant, yn gyffredinol, gael ei ddangos cyn 2100 nac ar ôl 0530. Ar wasanaethau ffilm tanysgrifiad premiwm nad ydynt yn cael eu diogelu fel y nodir yn Rheol 1.22, 2000 yw'r trothwy. Nid oes trothwy ar wasanaethau ffilm tanysgrifiad premiwm na gwasanaethau talu wrth wylio sy'n cael eu diogelu fel y nodir yn Rheol 1.22 ac 1.23 yn y drefn honno.

1.5 Rhaid i ddarlledwyr radio roi ystyriaeth benodol i amserau pan fydd plant yn arbennig o debygol o fod yn gwrando.

Ystyr "pan fydd plant yn arbennig o debygol o fod yn gwrando":

Mae'r ymadrodd hwn yn cyfeirio'n benodol at y daith i'r ysgol ac amser brecwast, ond gall gynnwys amserau eraill.

1.6 Ni ddylai'r trosglwyddo i ddeunydd sy'n fwy addas i oedolion fod yn rhy sydyn ar yr amser trothwy, neu ar ôl yr amser pan fydd plant yn arbennig o debygol o fod yn gwrando. Ar gyfer y teledu, dylai'r deunydd cryfaf ymddangos yn hwyrach yn yr amserlen.

1.7 Ar gyfer rhaglenni teledu sy'n cael eu darlledu cyn y trothwy, neu ar gyfer rhaglenni radio sy'n cael eu darlledu pan fydd plant yn arbennig o debygol o fod yn gwrando, dylai gwybodaeth eglur am gynnwys a all beri gofid i rai plant, gael ei rhoi, os yw'n briodol, i'r gynulleidfa (gan ystyried y cyd-destun).

(Am ystyr "cyd-destun" gweler Adran Dau: Niwed a Sarhad.)

### Ymdrin â throseddau rhyw a throseddau eraill yn y DG yn ymwneud â'r rhai dan ddeunaw oed

1.8 Lle mae cyfyngiadau statudol neu gyfyngiadau cyfreithiol eraill yn berthnasol sy'n atal adnabyddiaeth bersonol, dylai darlledwyr fod yn arbennig o ofalus yn ogystal i beidio â rhoi cliwiau a all arwain at nodi'r rheiny nad ydynt yn oedolion eto (gall yr oed diffiniol wahaniaethu mewn rhannau gwahanol o'r DG), ac sydd, neu a all fod, yn gysylltiedig fel dioddefwr, tyst, amddiffynnydd neu gyflawnydd arall yn achos troseddau rhyw mewn achosion llys troseddau, llys sifil neu lys deulu:

- drwy adrodd gwybodaeth gyfyngedig y gellir ei rhoi at ei gilydd gyda gwybodaeth arall sydd ar gael rywle arall, er enghraifft, mewn adroddiadau papur newydd (yr 'effaith jig-so');
- yn anfwriadol, er enghraifft, trwy ddisgrifio trosedd fel "llosgach"; neu
- mewn unrhyw ffordd anuniongyrchol arall.

(Sylwer: Dylai darlledwyr fod yn ymwybodol y gall fod cyfyngiadau adrodd statudol sy'n berthnasol hyd yn oed os nad yw llys wedi gwneud gorchymyn yn benodol i'r perwyl hwnnw).

1.9 Pan fyddant yn ymdrin ag unrhyw ymchwiliad cyn-treial i drosedd honedig yn y DG, dylai darlledwyr roi sylw arbennig i sefyllfa unrhyw berson nad yw'n oedolyn eto ac a all fod yn agored i ddioddef ac sy'n gysylltiedig fel tyst neu ddioddefwr, cyn darlledu ei enw, ei gyfeiriad, enw ei ysgol neu ei sefydliad addysgol arall, ei fan gweithio, neu unrhyw lun llonydd neu symudol ohono. Mae cyfiawnhad penodol yn ofynnol yn ogystal i ddarlledu deunydd sy'n ymwneud ag adnabod unrhyw berson nad yw'n oedolyn eto ac sy'n gysylltiedig yn yr amddiffyniad fel diffynnydd neu ddiffynnydd posibl.

### Cyffuriau, ysmygu, camddefnyddio toddyddion ac alcohol

1.10 Rhaid i ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon, camddefnyddio cyffuriau, ysmygu, camddefnyddio toddyddion a chamddefnyddio alcohol:

- beidio â chael eu dangos mewn rhaglenni sy'n cael eu gwneud ar gyfer plant yn bennaf, oni bai bod cyfiawnhad golygyddol cryf;
- gael eu hosgoi yn gyffredinol, a beth bynnag ni ddylid eu cydoddef, eu hannog na'u glamoreiddio mewn rhaglenni eraill sy'n cael eu darlledu cyn y trothwy, neu pan fydd plant yn arbennig o debygol o fod yn gwrando, oni bai bod cyfiawnhad golygyddol;

- beidio â chael eu cydoddef, eu hannog na'u glamoreiddio mewn rhaglenni eraill sy'n debygol o gael eu gwylio'n eang, neu y gwrandewir yn eang arnynt, gan y rheiny dan ddeunaw oed, oni bai bod cyfiawnhad golygyddol.

**Trais ac ymddygiad peryglus**

1.11 Rhaid i drais, ei ôl-effeithiau a disgrifiadau o drais, geiriol neu gorfforol, gael ei gyfyngu'n briodol mewn rhaglenni sy'n cael eu darlledu cyn y trothwy neu pan fydd plant yn arbennig o debygol o fod yn gwrando, a rhaid iddo gael ei gyfiawnhau gan y cyd-destun yn ogystal.

1.12 Rhaid i drais, geiriol neu gorfforol, sy'n hawdd ei ddynwared gan blant mewn modd sy'n niweidiol neu'n beryglus:

- beidio â chael ei ddangos mewn rhaglenni sy'n cael eu gwneud ar gyfer plant yn bennaf, oni bai bod cyfiawnhad golygyddol cryf;
- beidio â chael ei ddarlledu cyn y trothwy neu pan fydd plant yn arbennig o debygol o fod yn gwrando, oni bai bod cyfiawnhad golygyddol.

1.13 Rhaid i ymddygiad peryglus, neu bortread o ymddygiad peryglus, sy'n debygol o fod yn hawdd ei ddynwared gan blant mewn modd sy'n niweidiol:

- beidio â chael ei ddangos mewn rhaglenni sy'n cael eu gwneud ar gyfer plant yn bennaf, oni bai bod cyfiawnhad golygyddol cryf;
- beidio â chael ei ddarlledu cyn y trothwy neu pan fydd plant yn arbennig o debygol o fod yn gwrando, oni bai bod cyfiawnhad golygyddol.

(Mewn perthynas â Rheolau 1.11 i 1.13 gweler Rheolau 2.4 a 2.5 yn Adran Dau: Niwed a Sarhad.)

**Iaith sarhaus**

1.14 Rhaid peidio â darlledu'r iaith fwyaf sarhaus cyn y trothwy na phan fydd plant yn arbennig o debygol o fod yn gwrando.

1.15 Rhaid peidio â defnyddio iaith sarhaus mewn rhaglenni sy'n cael eu gwneud ar gyfer plant iau ac eithrio yn yr amgylchiadau mwyaf eithriadol.

1.16 Rhaid peidio â darlledu iaith sarhaus cyn y trothwy, neu pan fydd plant yn arbennig o debygol o fod yn gwrando, oni bai bod y cyd-destun yn ei gyfiawnhau. Beth bynnag, rhaid osgoi defnyddio iaith felly yn aml cyn y trothwy.

(Mewn perthynas â Rheolau 1.14 i 1.16 gweler Rheol 2.3 yn Adran Dau: Niwed a Sarhad.)

**Rhyw**

1.17 Rhaid peidio â chynrychioli cyfathrach rywiol cyn y trothwy, neu pan fydd plant yn arbennig o debygol o fod yn gwrando, oni bai bod diben addysgol difrifol. Rhaid bod cyfiawnhad golygyddol dros unrhyw drafodaeth am, neu bortread o, ymddygiad rhywiol os caiff ei gynnwys cyn y trothwy, neu pan fydd plant yn arbennig o debygol o fod yn gwrando, a rhaid iddo gael ei gyfyngu'n briodol a bod yn aneglur.

**Noethni**

1.18 Rhaid i noethni, cyn y trothwy, gael ei gyfiawnhau gan y cyd-destun.

**Allfwriad, yr ocwlt a'r goruwchnaturiol**

1.19 Rhaid peidio â dangos arddangosiadau o allfwrw, arferion yr ocwlt a'r goruwchnaturiol (sy'n honni eu bod yn rhai go iawn), cyn y trothwy neu pan fydd plant yn arbennig o debygol o fod yn gwrando. Rhaid peidio â darlledu arferion goruwchnaturiol sydd at ddibenion

adloniant pan ellir disgwyl y bydd nifer sylweddol o blant yn gwylio, neu pan fyddant yn arbennig o debygol o fod yn gwrando. (Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i ddrama, ffilm na chomedi.)

(Gweler Rheolau 2.6 i 2.8 yn Adran Dau: Niwed a Sarhad a Rheol 4.7 yn Adran Pedwar: Crefydd.)

**Ffilmiau, gwasanaethau ffilm tanysgrifiad premiwm, gwasanaethau talu wrth wylio, deunydd rhyw i oedolion ar wasanaethau tanysgrifiad premiwm**

1.20 Ni ellir darlledu unrhyw ffilm y gwrthodwyd dosbarthiad iddi gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain ('BBFC') oni bai iddi gael dosbarthiad wedyn neu fod y BBFC wedi cadarnhau na fyddai'n cael ei gwrthod yn unol â'r safonau sydd ar waith ar hyn o bryd. Hefyd, ni ellir darlledu unrhyw ffilm a dorrwyd fel amod dosbarthiad gan y BBFC mewn fersiwn sy'n cynnwys y deunydd a dorrwyd oni bai:

- bod y BBFC wedi cadarnhau bod y deunydd wedi'i dorri i alluogi'r ffilm basio ar gategori is; neu

- bod y BBFC wedi cadarnhau na fyddai'r ffilm yn destun toriadau gorfodol yn unol â'r safonau sydd ar waith ar hyn o bryd.

1.21 Rhaid peidio â darlledu ffilmiau a gafodd dosbarthiad 18 gan y BBFC na'u cyfwerth cyn 2100 ar unrhyw wasanaeth (ac eithrio ar gyfer gwasanaethau talu wrth wylio), a hyd yn oed bryd hynny fe allent fod yn anaddas i'w darlledu ar yr amser hwn.

1.22 Gall gwasanaethau ffilm tanysgrifiad premiwm ddarlledu hyd at ffilmiau a gafodd ddosbarthiad 15 gan y BBFC neu'u cyfwerth, ar unrhyw adeg o'r dydd ar yr amod:

- bod system ddiogelu (PIN gorfodol neu ddiogelwch cyfwerth arall) cyn 2000 ac ar ôl 0530, sy'n ceisio'n foddhaol i gyfyngu mynediad i'r rheiny'n unig sydd ag awdurdod i wylio pan fydd deunydd, heblaw deunydd y rhoddwyd dosbarthiad U neu PG iddo gan y BBFC neu'u cyfwerth, yn cael ei ddangos; a

- bod esboniad eglur yn cael ei roi i bob tanysgrifiwr am y systemau diogelwch hynny sydd ar waith i ddiogelu plant.

1.23 Gall gwasanaethau talu wrth wylio ddarlledu hyd at ffilmiau gyda dosbarthiad 18 BBFC neu'u cyfwerth, ar unrhyw adeg o'r dydd ar yr amod:

- bod system ddiogelu cyn 2100 ac ar ôl 0530 (PIN gorfodol neu ddiogelwch cyfwerth arall), sy'n ceisio'n foddhaol i gyfyngu mynediad i'r rheiny'n unig sydd ag awdurdod i wylio pan fydd deunydd heblaw am ddeunydd y rhoddwyd dosbarthiad U neu PG iddo gan y BBFC neu'u cyfwerth yn cael ei ddangos;
- bod gwybodaeth yn cael ei rhoi am gynnwys rhaglen a fydd yn cynorthwyo oedolion i asesu'i haddasrwydd i blant;
- bod system filio fanwl i danysgrifwyr sy'n rhoi rhestr fanwl ac eglur o'r cyfan a wyliwyd gan gynnwys amserau a dyddiadau gwylio; a
- bod esboniad eglur yn cael ei roi i bob tanysgrifiwr am y systemau diogelwch hynny sydd ar waith i ddiogelu plant.

1.24 Gall gwasanaethau tanysgrifiad premiwm a gwasanaethau talu wrth wylio/talu fesul noson ddarlledu deunydd 'rhyw oedolion' rhwng 2200 ac 0530 ar yr amod, yn ychwanegol at drefniadau diogelwch eraill y sonnir amdanynt uchod:

- bod system amgryptio wedi'i diogelu â PIN gorfodol, neu ddiogelwch cyfwerth arall, sy'n ceisio'n foddhaol i gyfyngu mynediad i'r rheiny'n unig sydd ag awdurdod i wylio; a
- bod mesurau ar waith sy'n sicrhau bod y tanysgrifiwr yn oedolyn.

1.25 Rhaid peidio â darlledu ffilmiau y rhoddir dosbarthiad 18 iddynt gan y BBFC neu'u cyfwerth.

**Cysylltiad pobl dan ddeunaw oed â rhaglenni**

1.26 Rhaid cymryd gofal dyladwy ynghylch lles corfforol ac emosiynol ac urddas pobl dan ddeunaw oed sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni neu sydd â chysylltiad arall â nhw. Mae hyn ar wahân i unrhyw ganiatâd a roddir gan y cyfranogwr neu gan riant, gwarcheidwad neu berson arall dros ddeunaw oed "in loco parentis".

1.27 Rhaid peidio ag achosi gofid neu bryder diangen i bobl dan ddeunaw oed yn sgil eu cysylltiad â rhaglenni neu drwy ddarlledu'r rhaglenni hynny.

1.28 Rhaid i wobrwyon sy'n anelu tuag at blant fod yn briodol i ystod oed y gynulleidfa darged a'r cyfranogwyr.

(Gweler Rule 2.11 yn Adran Dau: Niwed a Sarhad)

**Adran Dau:**

# Niwed a Sarhad

(Mae deddfwriaeth berthnasol yn cynnwys, yn benodol, adran 3(4)(g) ac (l) a 319(2)(a), (f) ac (l) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, ac Erthyglau 10 a 14 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.)

Rhaid darllen yr adran hon ar y cyd ag Adran Un: Diogelu'r Rhai Dan Ddeunaw Oed. Mae'r rheolau yn yr adran hon wedi'u cynllunio nid i ddarparu diogelwch digonol i oedolion yn unig, ond i ddiogelu pobl dan ddeunaw oed yn ogystal.

### Egwyddor

**Sicrhau bod safonau a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cymhwyso i gynnwys gwasanaethau teledu a radio er mwyn diogelu'r cyhoedd yn ddigonol rhag cynnwys deunydd niweidiol a/neu sarhaus mewn gwasanaethau felly.**

### Rheolau

2.1 Rhaid cymhwyso safonau a dderbynnir yn gyffredinol i gynnwys gwasanaethau teledu a radio er mwyn darparu diogelwch digonol i aelodau'r cyhoedd rhag cynnwys deunydd niweidiol a/neu sarhaus mewn gwasanaethau felly.

2.2 Rhaid i raglenni ffeithiol neu eitemau neu bortreadau o faterion ffeithiol beidio â chamarwain y gynulleidfa yn sylweddol.

(Nodyn i Reol 2.2: Caiff newyddion ei reoleiddio dan Adran Pump y Côd.)

2.3 Wrth gymhwyso safonau a dderbynnir yn gyffredinol, rhaid i ddarlledwyr sicrhau bod deunydd a all beri sarhad yn cael ei gyfiawnhau gan y cyd-destun (gweler ystyr "cyd-destun" isod). Gall y cyfryw ddeunydd gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, iaith sarhaus, trais, rhyw, trais rhywiol, cywilydd, gofid, cam yn erbyn urddas dynol, triniaeth neu iaith wahaniaethol (er enghraifft, ar sail oed, anabledd, rhyw, hil, crefydd, credoau neu ogwydd rhywiol). Dylai gwybodaeth briodol gael ei darlledu hefyd lle byddai o gymorth wrth osgoi neu leihau sarhad.

Ystyr "cyd-destun":

Mae cyd-destun yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- gynnwys golygyddol y rhaglen, rhaglenni neu gyfres;
- y gwasanaeth y caiff y deunydd ei ddarlledu arno;
- amser y darllediad;
- pa raglenni eraill sydd wedi'u hamserlennu cyn ac ar ôl y rhaglen neu raglenni dan sylw;
- graddau'r niwed neu'r sarhad sy'n debygol o gael ei achosi gan gynnwys unrhyw fath penodol o ddeunydd mewn rhaglenni'n gyffredinol neu raglenni o ddisgrifiad penodol;
- maint a chyfansoddiad tebygol y gynulleidfa botensial a disgwyliad tebygol y gynulleidfa;
- y graddau y gellir dod â natur y cynnwys i sylw'r gynulleidfa botensial, er enghraifft, trwy roi gwybodaeth; ac
- effaith y deunydd ar wylwyr neu wrandawyr a all ddod ar ei draws heb yn wybod iddynt.

2.4 Rhaid i raglenni beidio â chynnwys deunydd (mewn rhaglenni unigol neu mewn rhaglenni a gymerir ynghyd) sydd, o ystyried eu cynnwys, yn cydoddef neu'n glamoreiddio ymddygiad treisiol, peryglus neu ymddygiad anghymdeithasol difrifol ac sy'n debygol o annog eraill i ddynwared ymddygiad felly.

(Gweler Rheolau 1.11 i 1.13 yn Adran Un: Diogelu'r Rhai Dan Ddeunaw Oed.)

2.5 Rhaid peidio â chynnwys dulliau hunan-ladd neu hunan-niweidio mewn rhaglenni ac eithrio lle mae cyfiawnhad golygyddol amdanynt a bod y cyd-destun yn eu cyfiawnhau yn ogystal. (Gweler Rheol 1.13 yn Adran Un: Diogelu'r Rhai Dan Ddeunaw Oed.)

2.6 Rhaid ymdrin â gwrthrychedd dyladwy arddangosiadau o allfwrw, yr ocwlt, y goruwchnaturiol, dewiniaeth, neu arferion sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain sy'n honni eu bod yn sefyllfaoedd go iawn (yn hytrach nag adloniant).

(Gweler Rheol 1.19 yn Adran Un: Diogelu'r Rhai Dan Ddeunaw Oed, mewn perthynas â chyfyngiadau amserlennu.)

2.7 Os yw arddangosiad o allfwrw, yr ocwlt, y goruwchnaturiol, dewiniaeth, neu arferion sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain at ddibenion adloniant, rhaid esbonio hyn yn eglur i wylwyr a gwrandawyr.

2.8 Rhaid i arddangosiadau o allfwrw, yr ocwlt, y goruwchnaturiol, dewiniaeth, neu arferion sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain (pa un a yw'r cyfryw arddangosiadau'n honni eu bod yn rhai go iawn neu'u bod at ddibenion adloniant) beidio â chynnwys cyngor sy'n newid bywyd yn cael ei gyfeirio at unigolion.

(Mae rhaglenni crefyddol wedi'u heithrio o'r rheol hon ond rhaid iddynt, beth bynnag, gydymffurfio â'r darpariaethau yn Adran Pedwar: Crefydd. Nid yw ffilmiau, dramâu a ffuglen yn gyffredinol yn rhwym gan y rheol hon.)

Ystyr "sy'n newid bywyd":

Mae cyngor sy'n newid bywyd yn cynnwys cyngor uniongyrchol i unigolion y gallent yn rhesymol weithredu neu ddibynnu arno ynghylch iechyd, cyllid, cyflogaeth neu berthynas.

2.9 Wrth ddarlledu deunydd sy'n dangos arddangosiadau o dechnegau hypnotig, rhaid i ddarlledwyr arfer graddfa briodol o gyfrifoldeb er mwyn atal hypnosis a/neu adweithiau croes mewn gwylwyr a gwrandawyr. Rhaid i'r hypnotydd beidio â darlledu'i drefniant/threfniant llafar llawn neu gael ei ddangos/dangos yn perfformio'n syth i gamera.

2.10 Rhaid darlledu newyddion ffug (er enghraifft, mewn dramâu neu raglenni dogfen) mewn modd nad oes unrhyw bosibilrwydd rhesymol y bydd y gynulleidfa'n cael ei chamarwain i gredu ei bod yn gwrando ar, neu'n gwylio, newyddion go iawn.

2.11 Dylai cystadlaethau gael eu cynnal yn deg, dylai gwobrau gael eu disgrifio'n gywir a dylai rheolau fod yn eglur ac yn hysbys yn briodol.

(Gweler Rheol 1.28 yn Adran Un: Diogelu'r Rhai Dan Ddeunaw Oed.)

2.12 Rhaid i ddarlledwyr beidio â defnyddio technegau sy'n ecsbloetio'r posibilrwydd o gyfleu neges i wylwyr neu wrandawyr, neu fel arall o ddylanwadu ar eu meddyliau heb iddynt fod yn ymwybodol, neu'n gwbl ymwybodol, o'r hyn sydd wedi digwydd.

2.13 Rhaid i ddarlledwyr teledu ragofalu eu bod yn cynnal lefel isel o risg i wylwyr sy'n dioddef o epilepsi ffotosynthesis. Lle nad yw'n rhesymol ymarferol i ddilyn canllaw Ofcom (gweler gwefan Ofcom), a lle gall darlledwyr ddangos bod cyfiawnhad golygyddol dros ddarlledu goleuadau'n fflachio a/neu batrymau, dylai gwylwyr gael rhybudd geiriol digonol, ac yn ogystal, os yw'n briodol, rhybudd testun, ar gychwyn y rhaglen neu eitem y rhaglen.

**Adran Tri:**

# Trosedd

(Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn cynnwys, yn benodol, adran 3(4)(j) a 319(2)(b) Deddf Cyfathrebiadau 2003, Erthygl 22(a) o'r Gyfarwyddeb Teledu Heb Ffiniau, ac Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.)

Egwyddor

**Sicrhau nad yw deunydd sy'n debygol o annog neu gymell troseddu neu arwain at anhrefn yn cael ei gynnwys mewn gwasanaethau teledu neu radio.**

Rheolau

3.1 Rhaid peidio â chynnwys mewn gwasanaethau teledu neu radio ddeunydd sy'n debygol o annog neu gymell troseddu neu arwain at anhrefn.

3.2 Rhaid peidio â darlledu disgrifiadau neu arddangosiadau o dechnegau troseddol sy'n cynnwys manylion hanfodol a allai alluogi troseddu oni bai bod cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny.

3.3 Ni ellir gwneud taliad, addewid o daliad, na thaliad mewn nwyddau yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i droseddwyr sydd wedi'u dyfarnu'n euog neu sydd wedi cyffesu, am gyfraniad at raglen gan y troseddwr (neu unrhyw berson arall) yn ymwneud â'i drosedd(-au)/throsedd(-au). Yr unig eithriad yw pan fo hynny er lles y cyhoedd.

3.4 Tra bydd achos troseddol ar droed, ni ellir gwneud taliad nac addewid o daliad, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i unrhyw dyst neu unrhyw berson y gellir disgwyl yn rhesymol i'w alw/galw fel tyst. Ni ddylid ychwaith awgrymu taliad neu'i wneud yn ddibynnol ar ganlyniad y treial. Dim ond gwariant gwirioneddol neu golli enillion a ddigwyddodd o anghenraid yn ystod gwneud cyfraniad at raglen y gellir eu had-dalu.

3.5 Lle mae achos troseddol yn debygol ac yn rhagweladwy, ni ddylai taliadau gael eu gwneud i bobl y gellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt fod yn dystion oni bai bod lles cyhoeddus clir, fel ymchwilio i drosedd neu gamweithred ddifrifol, a bod y taliad yn angenrheidiol i ddod o hyd i'r wybodaeth. Lle gwneir taliad felly, bydd yn briodol datgelu'r taliad i'r amddiffyniad a'r erlyniad os daw'r person yn dyst mewn treial wedi hynny.

3.6 Rhaid i ddarlledwyr ymdrechu o'u gorau i beidio â darlledu deunydd a allai beryglu bywydau neu niweidio llwyddiant cynigion i ddelio â herwgipio neu gipio.

**Adran Pedwar:**

# Crefydd

(Mae deddfwriaeth berthnasol yn cynnwys, yn benodol, adrannau 319(2)(e) a 319(6) Deddf Cyfathrebiadau 2003, ac Erthyglau 9, 10 ac 14 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.)

Mae'r rheolau yn yr adran hon yn berthnasol i raglenni crefyddol.

## Egwyddorion

**Sicrhau bod darlledwyr yn arfer cyfrifoldeb priodol gyda pharch tuag at gynnwys rhaglenni sy'n rhaglenni crefyddol.**

**Sicrhau nad yw rhaglenni crefyddol yn golygu ecsbloetio'n amhriodol unrhyw deimladau gan y gynulleidfa am raglen felly.**

**Sicrhau nad yw rhaglenni crefyddol yn golygu unrhyw gam-drin barn a chredoau crefyddol y rheiny sy'n perthyn i grefydd neu enwad crefyddol penodol.**

## Rheolau

4.1 Rhaid i ddarlledwyr arfer graddfa briodol o gyfrifoldeb gyda pharch tuag at gynnwys rhaglenni sy'n rhaglenni crefyddol.

Ystyr "rhaglen grefyddol":

Rhaglen grefyddol yw rhaglen sy'n delio â materion crefydd fel y testun canolog, neu fel rhan sylweddol, o'r rhaglen.

4.2 Rhaid i farnau a chredoau crefyddol y rheiny sy'n perthyn i grefydd neu enwad crefyddol penodol beidio bod yn destun camdriniaeth.

4.3 Lle mae crefydd neu enwad crefyddol yn destun, neu'n un o destunau, rhaglen grefyddol, yna rhaid i adnabyddiaeth y grefydd a/neu enwad fod yn glir i'r gynulleidfa.

4.4 Rhaid i raglenni crefyddol beidio â cheisio hyrwyddo barnau neu gredoau crefyddol yn llechwraidd.

4.5 Rhaid i raglenni crefyddol ar wasanaethau teledu beidio â chwilio am recriwtiaid. Nid yw hyn yn berthnasol i wasanaethau teledu crefyddol arbenigol. Gall rhaglenni crefyddol ar y radio chwilio am recriwtiaid.

Ystyr "chwilio am recriwtiaid":

Mae chwilio am recriwtiaid yn golygu apelio'n uniongyrchol i aelodau'r gynulleidfa i ymuno â chrefydd neu enwad crefyddol.

4.6 Rhaid i raglenni crefyddol beidio ag ecsbloetio'n amhriodol unrhyw deimladau gan y gynulleidfa.

(Gweler Rheolau 10.13 i 10.16 yn Adran 10: Cyfeiriadau Masnachol a Materion Eraill, mewn perthynas ag apeliadau.)

4.7 Rhaid i raglenni crefyddol sy'n cynnwys honiadau bod gan berson byw (neu grŵp) bwerau neu alluoedd arbennig ymdrin â honiadau felly â gwrthrychedd dyladwy, a rhaid iddynt beidio â darlledu honiadau felly pan ellir disgwyl i niferoedd sylweddol o blant fod yn gwylio (yn achos teledu), neu pan fydd plant yn arbennig o debygol o fod yn gwrando (yn achos y radio).

**Adran Pump:**

# Didueddrwydd Dyladwy a Chywirdeb Dyladwy ac Amlygrwydd Gormodol o Safbwyntiau a Barnau

***(Mae deddfwriaeth berthnasol yn cynnwys, yn benodol, adran 319(2)(c) a (d), 319(8) ac adran 320 Deddf Cyfathrebiadau 2003, ac Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.)***

Nid yw'r adran hon o'r Côd yn berthnasol i wasanaethau'r BBC a ariennir gan ffi'r drwydded neu gan gymorth grant, sy'n cael eu rheoleiddio ar y materion hyn gan Lywodraethwyr y BBC.

## Egwyddorion

**Sicrhau bod newyddion, ar ba ffurf bynnag, yn cael eu hadrodd gyda chywirdeb dyladwy a'u cyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy.**

**Sicrhau cydymffurfio â gofynion didueddrwydd arbennig y Ddeddf.**

## Rheolau

Ystyr "didueddrwydd dyladwy":

Mae "dyladwy" yn gymhwyster pwysig i gysyniad didueddrwydd. Golyga didueddrwydd ei hun beidio ffafrio'r naill ochr dros y llall. Mae "dyladwy" yn golygu digonol neu briodol i destun a natur y rhaglen. Felly, nid yw "didueddrwydd dyladwy" yn golygu bod rhaid rhoi rhaniad amser cyfartal i bob barn, na bod rhaid cynrychioli pob dadl a phob agwedd ar bob dadl. Gall yr ymagwedd tuag at ddidueddrwydd dyladwy amrywio yn ôl natur y testun, y math o raglen a'r sianel, disgwyliad tebygol y gynulleidfa o ran cynnwys, a'r graddau y rhoddir arwydd i'r gynulleidfa am y cynnwys a'r ymagwedd. Mae cyd-destun, fel y'i diffinnir yn Adran Dau: "Niwed a Sarhad" y Côd, yn bwysig.

### Didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy mewn newyddion

5.1 Rhaid i newyddion, ar ba ffurf bynnag, gael eu hadrodd gyda chywirdeb dyladwy a'u cyflwyno gyda didueddrwydd dyladwy.

5.2 Dylai camgymeriadau sylweddol mewn newyddion gael eu cydnabod fel arfer a'u cywiro ar yr awyr yn gyflym. Dylid amserlennu cywiriadau'n briodol.

5.3 Ni ellir defnyddio unrhyw wleidydd fel darllenydd newyddion, cyfwelydd na gohebydd mewn unrhyw raglenni newyddion, oni bai, yn eithriadol, bod cyfiawnhad golygyddol dros wneud hynny. Yn yr achos hwnnw, rhaid i deyrngarwch gwleidyddol y person hwnnw gael ei ddatgelu'n eglur i'r gynulleidfa.

### Gofynion didueddrwydd arbennig: newyddion a rhaglenni eraill

***Materion sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol a materion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus presennol***

Ystyr "materion sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol a materion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus presennol":

Materion sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol yw materion gwleidyddol neu ddiwydiannol y mae gwleidyddion, diwydiant a/neu y cyfryngau yn dadlau yn eu cylch. Nid

oes angen i faterion sy’n ymwneud â pholisi cyhoeddus presennol fod yn destun dadlau, ond mae a wnelont â pholisi sydd dan drafodaeth neu sydd eisoes wedi’i benderfynu gan lywodraeth leol, ranbarthol neu genedlaethol neu gan gyrff a fandadwyd gan y cyrff cyhoeddus hynny i lunio polisïau ar eu rhan, er enghraifft, sefydliadau heb fod yn sefydliadau llywodraethol, sefydliadau Ewropeaidd perthnasol ac ati.

***Eithrio safbwyntiau neu farnau***

(Mae Rheol 5.4 yn berthnasol i wasanaethau teledu a radio ac eithrio gwasanaethau cyfyngedig.)

5.4 Rhaid i raglenni yn y gwasanaethau (a restrir uchod) eithrio pob mynegiant o farn a safbwyntiau’r person sy’n darparu’r gwasanaeth am faterion sy’n destun dadlau gwleidyddol a diwydiannol a materion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus presennol (oni bai bod y person hwnnw’n siarad mewn fforwm deddfwriaethau neu lys cyfraith). Mae barn a safbwyntiau’n ymwneud â darparu gwasanaethau rhaglenni wedi’u heithrio o’r gofyniad hwn yn ogystal.

***Cadw didueddrwydd dyladwy***

(Mae Rheolau 5.5 i 5.12 yn berthnasol i wasanaethau rhaglenni teledu, gwasanaethau teletestun, radio cenedlaethol a gwasanaethau rhaglenni sain digidol cenedlaethol.)

5.5 Rhaid i unrhyw berson sy’n darparu gwasanaeth (a restrir uchod) gadw didueddrwydd dyladwy ar faterion sy’n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol a materion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus presennol. Gellir cyflawni hyn o fewn rhaglen neu dros gyfres o raglenni a gymerir fel cyfanrwydd.

Ystyr “cyfres o raglenni a gymerir fel cyfanrwydd”:

Golyga hyn fwy nag un rhaglen yn yr un gwasanaeth, sydd â chysylltiad golygyddol, yn delio â’r un mater neu faterion cysylltiedig o fewn cyfnod priodol, ac yn anelu at gynulleidfa debyg. Gall cyfres gynnwys, er enghraifft, haenen, neu ddwy raglen (fel drama a dadl am y ddrama) neu ‘glwstwr’ neu ‘dymor’ o raglenni ar yr un testun.

5.6 Dylai’r darllediad o raglenni sydd â chyswllt golygyddol sy’n delio â’r un deunydd (fel rhan o “gyfres” lle mai nod y darlledwr yw sicrhau didueddrwydd dyladwy) gael ei esbonio’n eglur i’r gynulleidfa ar yr awyr fel arfer.

5.7 Rhaid peidio â cham-gyfleu barnau a ffeithiau. Hefyd, rhaid cyfleu barnau â phwys dyladwy dros fframiau amser priodol.

5.8 Rhaid i unrhyw ddiddordeb personol gan ohebydd neu gyflwynydd, a fyddai’n codi amheuaeth ynghylch didueddrwydd dyladwy’r rhaglen, gael ei esbonio’n eglur i’r gynulleidfa.
5.9 Gall cyflwynwyr a gohebwyr (ac eithrio cyflwynwyr a gohebwyr newyddion mewn rhaglenni newyddion), cyflwynwyr rhaglenni neu eitemau “barn bersonol” neu “awdurol”, a chadeiryddion rhaglenni trafod fynegi’u barn eu hunain ar faterion sy’n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol neu faterion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus presennol. Fodd bynnag, rhaid cyfleu safbwyntiau eraill yn ddigonol naill ai yn y rhaglen, neu mewn cyfres o raglenni a gymerir fel cyfanrwydd. Hefyd, rhaid i gyflwynwyr beidio â defnyddio mantais ymddangosiadau cyson i hyrwyddo’u safbwyntiau mewn modd sy’n peryglu’r gofyniad am ddidueddrwydd dyladwy. Rhaid i sesiynau ffonio’r cyflwynydd annog a pheidio ag eithrio barn wahanol.

5.10  Rhaid rhoi arwydd eglur i'r gynulleidfa ar y cychwyn am farn bersonol neu raglen neu eitem awdurol. Mae hwn yn ofyniad sylfaenol ac efallai nad yw'n ddigonol ym mhob amgylchiad. (Mae cyflwynwyr personoliaeth ffonio-i-mewn wedi'u heithrio o'r ddarpariaeth hon oni bai bod statws eu barn bersonol yn aneglur.)

Ystyr "barn bersonol" ac "awdurol":

Rhaglenni "barn bersonol" yw rhaglenni sy'n cyflwyno barn neu safbwynt penodol. Gall rhaglenni barn bersonol amrywio o fynegi barn bleidiol iawn yn uniongyrchol, er enghraifft, gan berson sy'n aelod o grŵp lobïo ac sy'n ymgyrchu ar y pwnc, i farn "awdurol" newyddiadurwr, sylwebydd neu academydd, gydag arbenigedd neu arbenigrwydd proffesiynol mewn maes sy'n ei alluogi/galluogi i fynegi barn nad yw o reidrwydd yn farn y brif ffrwd.

***Materion sy'n destun prif ddadl wleidyddol neu ddiwydiannol a phrif faterion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol***

5.11  Yn ychwanegol at y rheolau uchod, rhaid i'r person sy'n darparu gwasanaeth (a restrir uchod) sicrhau didueddrwydd dyladwy mewn perthynas â materion sy'n destun prif ddadl wleidyddol neu ddiwydiannol a phrif faterion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus presennol ym mhob rhaglen neu mewn rhaglenni amserol sydd â chyswllt *amlwg*.

Ystyr "materion sy'n destun prif ddadl wleidyddol neu ddiwydiannol a phrif faterion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus presennol ":

Bydd y rhain yn amrywio yn ôl digwyddiadau, ond yn gyffredinol materion ydynt sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol neu faterion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus presennol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol, a rhyngwladol yn aml, neu sydd yr un mor bwysig o fewn ardal ddarlledu lai.

5.12  Wrth ddelio â materion sy'n destun prif ddadl wleidyddol neu ddiwydiannol a phrif faterion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus presennol, rhaid cynnwys ystod eang priodol o farn sylweddol a rhoi pwys dyladwy iddi ym mhob rhaglen neu mewn rhaglenni amserol â chyswllt amlwg. Rhaid peidio â cham-gyfleu barn a ffeithiau.

***Atal amlygrwydd gormodol o farn a safbwyntiau ar faterion sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol a materion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol***

(Mae Rheol 5.13 yn berthnasol i wasanaethau radio lleol (gan gynnwys gwasanaethau radio cymunedol), gwasanaethau rhaglenni sain digidol lleol (gan gynnwys gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol) a gwasanaethau cynnwys trwyddedadwy radio.)

5.13  Ni ddylai darlledwyr roi amlygrwydd gormodol i farn a safbwyntiau personau neu gyrff penodol ar faterion sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol a materion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus presennol ym mhob un o'r rhaglenni a gynhwysir mewn unrhyw wasanaeth (a restrir uchod) a gymerir fel cyfanrwydd.

Ystyr "amlygrwydd gormodol i farn a safbwyntiau":

Amlygrwydd gormodol yw anghydbwysedd sylweddol mewn barn sy'n cael ei darlledu wrth ymdrin â materion sy'n destun dadlau gwleidyddol neu ddiwydiannol a materion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus presennol.

Ystyr “rhaglenni a gynhwysir mewn unrhyw wasanaeth…a gymerir fel cyfanrwydd”:

Ystyr rhaglenni a gynhwysir mewn unrhyw wasanaeth a gymerir fel cyfanrwydd yw yr holl raglenni ar wasanaeth sy’n delio â’r un materion neu faterion cysylltiedig o fewn cyfnod priodol.

**Adran Chwech:**

# Etholiadau a Refferenda

(Mae deddfwriaeth berthnasol yn cynnwys, yn benodol, adrannau 319(2)(c) a 320 Deddf Cymru Cyfathrebiadau 2003, ac Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Dylai darlledwyr ystyried hefyd yr adrannau perthnasol o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i newidiwyd) ("RPA") - gweler yn benodol adrannau 66A, 92 a 93 (sydd wedi'i newid gan adran 144 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000).)

Nid yw'r adran hon o'r Côd yn berthnasol i wasanaethau'r BBC a ariennir gan ffi'r drwydded neu gan gymorth grant, sy'n cael eu rheoleiddio ar y materion hyn gan Lywodraethwyr y BBC.

Mae rheolau a wnaed dan adran 333 Deddf Cyfathrebiadau 2003 (yn ymwneud â darllediadau etholiadol gan bleidiau, darllediadau gwleidyddol gan bleidiau a darllediadau ymgyrchoedd refferenda) a pharagraff 18 o Atodlen 12 wedi'u cynnwys yn *Ofcom Rules on Party Political and Referendum Broadcasts* ar wefan Ofcom. Fodd bynnag, mae'n ofynnol yn ogystal i ddarllediadau felly gydymffurfio â darpariaethau perthnasol y Côd hwn, er enghraifft, y darpariaethau yn ymwneud â niwed a sarhad - er gwaetha'r ffaith fod y cynnwys fel arfer yn gyfrifoldeb y pleidiau gwleidyddol perthnasol.

Egwyddor

**Sicrhau bod y gofynion didueddrwydd arbennig yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 a deddfwriaeth arall yn ymwneud â darlledu ar etholiadau a refferenda, yn cael eu cymhwyso ar adeg etholiadau a refferenda.**

Rheolau

### Rhaglenni ar adeg etholiadau a refferenda

6.1 Mae'r rheolau yn Adran Pump, yn benodol y rheolau sy'n ymwneud â materion sy'n destun prif ddadl wleidyddol neu ddiwydiannol a phrif faterion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus presennol, yn berthnasol i ymdrin ag etholiadau a refferenda.

### Rhaglenni ar adeg etholiadau a refferenda yn y DG

Mae gweddill yr adran hon yn berthnasol yn unig yn ystod cyfnod gwirioneddol etholiad neu refferendwm a ddiffinnir isod.

Ystyr "etholiad":

At ddiben yr adran hon, mae etholiadau'n cynnwys etholiad cyffredinol seneddol, isetholiad seneddol, etholiad llywodraeth leol, etholiad maer, etholiad Senedd yr Alban, etholiadau Cynulliad yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Llundain, ac etholiad senedd Ewrop.

Ystyr "refferendwm":

At ddiben yr adran hon, mae refferendwm (y mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 yn berthnasol iddi) yn cynnwys refferenda ar draws y DG, refferenda cenedlaethol neu ranbarthol, ond nid yw'n ymestyn i refferendwm lleol.

6.2 Rhaid rhoi pwys dyladwy i'r ymdriniaeth o'r prif bleidiau yn ystod cyfnod yr etholiad. Hefyd, rhaid i ddarlledwyr ystyried rhoi sylw priodol i'r pleidiau eraill ac ymgeiswyr annibynnol sydd â barnau a safbwyntiau pwysig.

Ystyr "prif blaid":

Ar hyn o bryd yn y DG, y prif bleidiau yw'r Blaid Geidwadol, y Blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Hefyd, prif bleidiau yr Alban a Chymru yn y drefn honno yw Plaid Genedlaethol yr Alban a Phlaid Cymru. Y prif bleidiau yng Ngogledd Iwerddon yw Plaid yr Unoliaethwyr Democrataidd, Sinn Fein, y Social Democratic and Labour Party, a Phlaid Unoliaethwyr Ulster.

Ystyr "cyfnod yr etholiad":

Ar gyfer etholiad cyffredinol seneddol, mae'r cyfnod hwn yn cychwyn gyda chyhoeddi diddymu'r Senedd. Ar gyfer isetholiad seneddol, mae'r cyfnod hwn yn cychwyn gyda chyhoeddi gwrit neu ar ddyddiad cynharach a nodir yn y *London Gazette*. Ar gyfer etholiadau Senedd yr Alban, mae'r cyfnod yn cychwyn gyda diddymu Senedd yr Alban neu, yn achos isetholiad, dyddiad swydd yn dod yn wag. Ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Cynulliad Llundain ac ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, cyfnod yr etholiad yw'r dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau am yr etholiad. Ar gyfer etholiadau seneddol Ewropeaidd, y cyfnod yw'r dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiad am yr etholiad, sef 25 diwrnod cyn yr etholiad. Ym mhob achos, daw'r cyfnod i ben wrth i'r blychau pleidleisio gau.

Ystyr "ymgeisydd":

Mae gan ymgeisydd yr ystyr a roddir iddo yn adran 93 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i newidiwyd) a golyga ymgeisydd sy'n sefyll wedi'i enwebu/henwebu yn yr etholiad, neu a gynhwyswyd mewn rhestr o ymgeiswyr a gyflwynwyd mewn cysylltiad â hi.

6.3 Rhaid rhoi pwys dyladwy i sefydliadau dynodedig wrth roi sylw iddynt yn ystod cyfnod y refferendwm. Hefyd, rhaid i ddarlledwyr ystyried rhoi sylw priodol i gyfranogwyr eraill a ganiateir sydd â barnau a safbwyntiau pwysig.

Ystyr "sefydliad dynodedig" a "chyfranogwyr a ganiateir":

Sefydliadau dynodedig a chyfranogwyr a ganiateir yw'r rheiny sydd wedi'u dynodi gan y Comisiwn Etholiadol.

Ystyr "cyfnod y refferendwm":

Ar gyfer refferenda, gall cyfnodau gwahanol fod yn berthnasol. Mae refferendwm a gynhelir dan Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (fel y'i newidiwyd) yn cychwyn pan osodir drafft o Orchymyn gerbron y Senedd i'w gymeradwyo gan bob Tŷ. Yn achos refferendwm a gynhelir dan Ddeddfau eraill, rhoddir amser cychwyn cyfnod refferendwm yn y Deddfau unigol. Yn achos gorchymyn gerbron y Senedd, rhoddir yr amser yn y Gorchymyn hwnnw. Ym mhob achos, daw'r cyfnod i ben wrth i'r blychau pleidleisio gau.

6.4 Rhaid i drafod a dadansoddi materion etholiad a refferendwm ddod i ben pan fydd y blychau pleidleisio yn agor. (Cyfeiria hyn at agor gorsafoedd pleidleisio eu hunain. Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i unrhyw bleidlais sy'n cael ei chynnal drwy'r post yn gyfan gwbl.)

6.5 Ni all darlledwyr gyhoeddi canlyniadau unrhyw arolwg barn ar y diwrnod pleidleisio ei hun hyd nes bod blychau pleidleisio'r etholiad neu'r refferendwm yn cau. (Ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop, mae hyn yn berthnasol hyd nes bod yr holl flychau pleidleisio ledled yr Undeb Ewropeaidd wedi cau.)

6.6 Rhaid i ymgeiswyr mewn etholiadau'r DG, a chynrychiolwyr cyfranogwyr a ganiateir mewn refferenda'r DG, beidio â gweithredu fel cyflwynwyr newyddion, cyfwelwyr na chyflwynwyr unrhyw fath o raglen yn ystod cyfnod yr etholiad.

6.7 Gall ymddangosiadau gan ymgeiswyr (mewn etholiadau'r DG) neu gynrychiolwyr (cyfranogwyr a ganiateir mewn refferenda yn y DG) mewn rhaglenni anwleidyddol a gafodd eu cynllunio neu'u hamserlennu cyn cyfnod yr etholiad neu refferendwm, barhau, ond ni ddylid trefnu unrhyw ymddangosiadau newydd a'u darlledu yn ystod y cyfnod.

**Sylw i etholaethau a sylw i ardaloedd etholiadol mewn etholiadau**

(Bydd Rheolau 6.8 i 6.13 yn berthnasol i S4C yn unig os yw S4C wedi'u mabwysiadu dan RPA ei Gôd Ymarfer.)

6.8 Rhaid sicrhau didueddrwydd dyladwy mewn adroddiad neu drafodaeth etholaeth neu mewn adroddiad neu drafodaeth etholiadol.

Ystyr "ardal etholiadol":

Ardal etholiadol (er enghraifft, rhanbarth etholiadol, ward bwrdeistref neu ardal arall) yw'r hyn sy'n gyfwerth mewn llywodraeth leol i'r term seneddol "etholaeth".

6.9 Os yw ymgeisydd yn cymryd rhan mewn eitem am ei etholaeth/hetholaeth benodol, neu ardal etholiadol, yna rhaid cynnig y cyfle i bob un o'r prif bleidiau gymryd rhan. (Fodd bynnag, os gwrthodant neu os na allant gymryd rhan, gall yr eitem fynd yn ei blaen serch hynny.)

6.10 Yn ychwanegol at Reol 6.9, rhaid i ddarlledwyr gynnig y cyfle i gymryd rhan mewn adroddiadau neu drafodaethau etholaethau neu ardaloedd etholiadol, i'r holl ymgeiswyr mewn etholaeth neu ardal etholiadol sy'n cynrychioli pleidiau â chefnogaeth etholiadol sylweddol flaenorol neu lle mae tystiolaeth o gefnogaeth gyfredol sylweddol. Mae hyn yn berthnasol i ymgeiswyr annibynnol yn ogystal. (Fodd bynnag, os yw ymgeisydd yn gwrthod neu os na all gymryd rhan, gall yr eitem fynd yn ei blaen serch hynny.)

6.11 Rhaid i adroddiad neu drafodaeth unrhyw etholaeth neu ardal etholiadol wedi i enwebiadau gau gynnwys rhestr o'r holl ymgeiswyr sy'n sefyll, gan roi'u henwau cyntaf, cyfenwau ac enw'r blaid y maent yn ei chynrychioli, neu, os ydynt yn sefyll yn annibynnol, y ffaith eu bod yn ymgeiswyr annibynnol. Rhaid i hyn gael ei gyfleu mewn sain a/neu lun. Lle caiff adroddiad etholaeth ar wasanaeth radio ei ailadrodd nifer o weithiau'r un diwrnod, dim ond unwaith y mae angen darlledu'r rhestr lawn. Os nad yw adroddiad yr etholaeth, mewn ailadroddiadau dilynol y diwrnod hwnnw, yn rhoi rhestr lawn yr ymgeiswyr, dylai'r gynulleidfa gael ei chyfeirio at wefan briodol neu ffynhonnell wybodaeth arall yn rhestru'r holl ymgeiswyr ac yn rhoi'r wybodaeth uchod iddynt.

6.12 Lle mae ymgeisydd yn cymryd rhan mewn rhaglen ar unrhyw fater, wedi i'r etholiad gael ei alw, rhaid rhoi'r cyfle iddo/iddi wneud pwyntiau etholaeth, neu bwyntiau ardal etholiadol am yr etholaeth neu'r ardal etholiadol lle mae'n sefyll, pan na fydd unrhyw ymgeiswyr eraill yn cael cyfle tebyg.

6.13 Os rhoddir sylw i ranbarthau etholiadau ehangach, er enghraifft, mewn etholiadau i Senedd yr Alban, Cynulliad Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Cynulliad Llundain neu Senedd Ewrop, yna mae Rheolau 6.8 i 6.12 yn berthnasol wrth gynnig cyfranogiad i ymgeiswyr. Yn yr enghreifftiau hyn, dylai pob plaid sydd ag ymgeisydd yn y rhanbarth priodol gael eu rhestru mewn sain a/neu lun, ond nid yw'n angenrheidiol rhestru ymgeiswyr yn unigol. Fodd bynnag, rhaid enwi unrhyw ymgeisydd annibynnol nad yw'n sefyll ar restr plaid. Lle caiff adroddiad ar wasanaeth radio ei ailadrodd nifer o weithiau'r un diwrnod, dim ond unwaith y mae angen darlledu'r rhestr lawn. Os nad yw adroddiad yr etholaeth, mewn ailadroddiadau dilynol y diwrnod hwnnw, yn rhoi rhestr lawn yr ymgeiswyr, dylai'r gynulleidfa gael ei chyfeirio at wefan briodol neu ffynhonnell wybodaeth arall yn rhestru'r holl ymgeiswyr ac yn rhoi'r wybodaeth a nodwyd uchod iddynt.

**Adran Saith:**

# Tegwch

(Mae deddfwriaeth berthnasol yn cynnwys, yn benodol, adrannau 3(2)(f) a 326 Deddf Cyfathrebiadau 2003 ac adrannau 107(1) a 130 o Ddeddf Darlledu 1996 (fel y'i newidiwyd), Erthygl 23 y Gyfarwyddeb Teledu Heb Ffiniau ac Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.)

## Rhagair

Mae'r adran hon a'r adran ganlynol ar breifatrwydd yn wahanol i adrannau eraill y Côd. Maent yn berthnasol i'r modd y mae darlledwyr yn trin yr unigolion neu'r sefydliadau yr effeithir yn uniongyrchol arnynt gan raglenni, yn hytrach na'r hyn a wêl a/neu a glyw y cyhoedd fel gwylwyr a gwrandawyr.

Yn ogystal â chynnwys egwyddor a rheol, mae'r adran hon yn cynnwys "arferion i'w dilyn" gan ddarlledwyr wrth ddelio ag unigolion neu sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni fel y'u darlledir, neu yr effeithir yn uniongyrchol arnynt fel arall gan raglenni fel y'u darlledir. Ni fydd dilyn yr arferion hyn o reidrwydd yn osgoi torri'r adran hon. *Fodd bynnag, bydd methiant i ddilyn yr arferion hyn yn golygu torri'r adran hon o'r Côd (rheol 7.1) yn unig lle arweinia at annhegwch i unigolyn neu sefydliad yn y rhaglen.* Yn bwysig, nid yw'r Côd yn ceisio ac ni all geisio nodi'r holl "arferion i'w dilyn" er mwyn osgoi triniaeth annheg.

Mae'r darpariaethau canlynol yn yr adran nesaf ar breifatrwydd yn berthnasol hefyd i'r adran hon:

- yr esboniad o ddiddordeb cyhoeddus sy'n ymddangos yn ystyr y gair "gwarantedig" dan Reol 8.1 yn Adran Wyth: Preifatrwydd;
- ystyr ffilmio neu recordio llechwraidd sy'n ymddangos dan "arferion i'w dilyn" 8.13 yn Adran Wyth: Preifatrwydd.

## Egwyddor

**Sicrhau bod darlledwyr yn osgoi trin unigolion neu sefydliadau yn anghyfiawn neu'n annheg mewn rhaglenni.**

## Rheol

7.1 Rhaid i ddarlledwyr osgoi trin unigolion neu sefydliadau yn anghyfiawn neu'n annheg mewn rhaglenni.

### Arferion i'w dilyn (7.2 i 7.14 isod)

### Delio'n deg â chyfranwyr a chael cydsyniad gwybodus

7.2 Dylai darlledwyr a gwneuthurwyr rhaglenni fod yn deg fel arfer wrth ymdrin â chyfranwyr posibl at raglenni oni bai, yn eithriadol, bod cyfiawnhad dros wneud fel arall.

7.3 Lle caiff person ei wahodd/gwahodd i wneud cyfraniad at raglen (ac eithrio pan fydd deunydd y cynnwys yn ddibwys neu'u cyfranogiad yn fach), dylai fel arfer, ar adeg briodol:

- gael gwybod beth yw natur a diben y rhaglen, beth yw testun y rhaglen, a chael esboniad clir o'r rheswm dros ofyn iddynt gyfrannu a pha bryd (os yw'n hysbys) a lle mae'n debygol o gael ei darlledu'n gyntaf;

- cael gwybod pa fath o gyfraniad mae disgwyl iddo ei wneud, er enghraifft, cyfraniad byw, wedi'i recordio ymlaen llaw, cyfweliad, trafodaeth, cyfraniad wedi'i olygu, heb ei olygu, ac ati;
- cael gwybodaeth am y meysydd holi, a lle bydd modd, natur cyfraniadau tebygol eraill;
- bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau sylweddol i'r rhaglen wrth iddi ddatblygu a allai effeithio'n rhesymol ar ei gydsyniad gwreiddiol i gyfranogi, ac a allai achosi annhegwch sylweddol;
- cael gwybod beth yw natur ei hawliau a'i rwymedigaethau contractiol a rhai'r gwneuthurwyr rhaglen a'r darlledwr mewn perthynas â'u cyfraniad; a
- chael gwybodaeth eglur, os cynigir cyfle i gael rhagolwg o'r rhaglen, a fydd modd iddo beri unrhyw newidiadau ynddi.

Mae cymryd y mesurau hyn yn debygol o arwain at y cydsyniad sy'n cael ei roi fod yn 'gydsyniad gwybodus' (cyfeirir ato yn yr adran hon ac yng ngweddill y Côd fel "cydsyniad").

Gall fod yn annheg atal y cyfan neu rywfaint o'r wybodaeth hon lle mae cyfiawnhad drosti er lles y cyhoedd neu dan ddarpariaethau eraill yr adran hon o'r Côd.

7.4 Os yw cyfrannwr dan un ar bymtheg oed, dylid cael cydsyniad fel arfer gan riant neu warcheidwad, neu berson arall deunaw oed neu hŷn "in loco parentis". Yn benodol, ni ddylid gofyn i bersonau dan un ar bymtheg oed am eu barn ar faterion sy'n debygol o fod y tu hwnt i'w gallu i ateb yn briodol heb gydsyniad felly.

7.5 Yn achos personau dros un ar bymtheg oed nad ydynt mewn sefyllfa i roi cydsyniad, dylai person deunaw oed neu hŷn sydd â phrif gyfrifoldeb am eu gofal roi'r cydsyniad ar eu rhan fel arfer. Yn benodol, ni ddylid gofyn i bersonau nad ydynt mewn sefyllfa i roi cydsyniad am eu barnau ar faterion sy'n debygol o fod y tu hwnt i'w gallu i ateb yn briodol heb gydsyniad felly.

7.6 Pan gaiff rhaglen ei golygu, dylai cyfraniadau gael eu cyfleu'n deg.

7.7 Dylai gwarantiadau a roddir i gyfranwyr, er enghraifft, yn ymwneud â chynnwys rhaglen, cyfrinachedd neu anhysbysrwydd, gael eu parchu fel arfer.

7.8 Dylai darlledwyr sicrhau nad yw ailddefnyddio deunydd, h.y. defnyddio deunydd a ffilmiwyd neu a recordiwyd yn wreiddiol at un diben ac a ddefnyddir wedyn mewn rhaglen at ddiben arall neu a ddefnyddir mewn rhaglen ddiweddarach neu raglen wahanol, yn creu annhegwch. Mae hyn yn berthnasol i ddeunydd a gafwyd gan eraill a deunydd y darlledwr ei hun.

**Cyfle i gyfrannu ac ystyried ffeithiau'n briodol**

7.9 Cyn darlledu rhaglen ffeithiol, gan gynnwys rhaglenni sy'n archwilio digwyddiadau sydd wedi mynd heibio, dylai darlledwyr gymryd pob gofal rhesymol i fodloni'u hunain:

- nad yw ffeithiau perthnasol wedi'u cyflwyno, eu diystyried neu'u hepgor mewn modd sy'n annheg i unigolyn neu sefydliad; a
- bod unrhyw y gallai ei hepgoriad fod yn annheg i unigolyn neu sefydliad wedi cael cynnig cyfle i gyfrannu.

7.10 Ni ddylai rhaglenni - fel dramâu a dramâu sy'n seiliedig ar ffeithiau - bortreadu ffeithiau, digwyddiadau, unigolion na sefydliadau mewn modd sy'n annheg i unigolyn neu sefydliad.

7.11 Os yw rhaglen yn honni camweithredu neu anallu neu'n gwneud honiadau sylweddol eraill, dylai'r rheiny dan sylw gael cyfle priodol ac amserol fel arfer i ymateb.

7.12 Lle mae person yr aethpwyd ato/ati i gyfrannu at raglen yn dewis peidio â gwneud unrhyw sylw neu'n gwrthod ymddangos mewn darllediad, dylai'r darllediad esbonio'n eglur bod yr unigolyn dan sylw wedi dewis peidio ymddangos a dylid rhoi ei esboniad/hesboniad pe bai'n annheg i beidio â gwneud hynny.

7.13 Lle mae'n briodol cyfleu barnau person neu sefydliad nad ydynt yn cyfranogi yn y rhaglen, rhaid i hyn gael ei wneud mewn modd teg.

**Twyll, dal rhywun allan a galwadau 'cynhyrfu'**

7.14 Ni ddylai darlledwyr neu wneuthurwyr rhaglenni fel arfer gael neu chwilio am wybodaeth, sain, lluniau na chytundeb i gyfrannu drwy gam-gyfleu neu dwyll. (Mae twyll yn cynnwys ffilmio neu recordio llechwraidd.) Fodd bynnag:

- gellir gwarantu defnyddio deunydd a gafwyd drwy gam-gyfleu neu dwyll heb ganiatâd os yw er diddordeb y cyhoedd ac os na ellir yn rhesymol ei gael trwy fodd arall;
- lle nad oes cyfiawnhad digonol er diddordeb y cyhoedd, er enghraifft, galwadau cynhyrfu digymell neu sefyllfaoedd adloniant i ddal rhywun allan, dylid cael cydsyniad gan yr unigolyn a/neu'r sefydliad dan sylw cyn darlledu'r deunydd;
- os nad oes modd adnabod yr unigolyn a/neu'r sefydliad yn y rhaglen, yna ni fydd yn ofynnol cael cydsyniad i ddarlledu;
- gellir defnyddio deunydd sy'n ymwneud â phobl enwog a'r rheiny sydd yn llygad y cyhoedd heb gydsyniad i ddarlledu, ond ni ddylid ei ddefnyddio heb gyfiawnhad diddordeb y cyhoedd os yw'n debygol o arwain at wawdio cyhoeddus neu ofid personol nad oes cyfiawnhad drostynt. (Fel arfer, felly, dylai cyfraniadau felly gael eu recordio ymlaen llaw.)

(Gweler "arferion i'w dilyn" 8.11 i 8.15 yn Adran Wyth: Preifatrwydd.)

**Adran Wyth:**

# Preifatrwydd

(Mae deddfwriaeth berthnasol yn cynnwys, yn benodol, adrannau 3(2)(f) a 326 Deddf Cyfathrebiadau 2003, adrannau 107(1) a 130 Deddf Darlledu 1996 (fel y'i newidiwyd), ac Erthyglau 8 a 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.)

**Preifatrwydd**

Rhagair

Mae'r adran hon a'r adran flaenorol ar degwch yn wahanol i adrannau eraill y Côd. Maent yn berthnasol i'r modd y mae darlledwyr yn trin yr unigolion neu'r sefydliadau yr effeithir yn uniongyrchol arnynt gan raglenni, yn hytrach na'r hyn a wêl a/neu a glyw y cyhoedd fel gwylwyr a gwrandawyr.

Yn ogystal â chynnwys egwyddor a rheol, mae'r adran hon yn cynnwys "arferion i'w dilyn" gan ddarlledwyr wrth ddelio ag unigolion neu sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni, neu yr effeithir yn uniongyrchol arnynt fel arall gan raglenni, neu yn y broses gwneud rhaglenni. Ni fydd dilyn yr arferion hyn o reidrwydd yn osgoi torri'r adran hon. *Fodd bynnag, bydd methiant i ddilyn yr arferion hyn yn golygu torri'r adran hon o'r Côd (rheol 8.1) yn unig lle arweinia at dorri preifatrwydd heb gyfiawnhad.* Yn bwysig, nid yw'r Côd yn ceisio ac ni all geisio nodi'r holl "arferion i'w dilyn" er mwyn osgoi torri preifatrwydd yn ddiwarant.

Mae Deddf Darlledu 1996 (fel y'i newidiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom ystyried cwynion ynghylch achosion o dorri preifatrwydd heb gyfiawnhad mewn rhaglen neu mewn cysylltiad â chael deunydd a gynhwysir mewn rhaglen. Fe all hyn ofyn am lunio barn anodd yn y fan a'r lle ynghylch a oes achos heb gyfiawnhad o dorri preifatrwydd drwy ffilmio neu recordio, yn enwedig wrth adrodd ar sefyllfaoedd argyfwng ("arferion i'w dilyn" 8.5 i 8.8 ac 8.16 i 8.19). Rydym yn cydnabod y gall fod diddordeb cyhoeddus cryf mewn adrodd am sefyllfa argyfwng fel mae'n digwydd, a deallwn y gall fod pwysau ar ddarlledwyr yn y man lle digwydd y trychineb neu'r argyfwng ac y gall fod yn anodd barnu adeg ffilmio neu recordio a yw'n achos o dorri ar breifatrwydd heb gyfiawnhad. Mae'r rhain yn ffactorau y bydd Ofcom yn eu hystyried pan fydd yn dyfarnu ar gwynion.

Lle cyfeirir ar gydsyniad yn Adran Wyth, mae'n cyfeirio at gydsyniad gwybodus. Gweler "arfer i'w dilyn" 7.3 yn Adran Saith: Tegwch.

Egwyddor

**Sicrhau bod darlledwyr yn osgoi unrhyw achos o dorri ar breifatrwydd heb gyfiawnhad mewn rhaglenni ac mewn cysylltiad â chael deunydd a gynhwysir mewn rhaglenni.**

Rheol

8.1 Rhaid bod cyfiawnhad dros unrhyw achos o dorri ar breifatrwydd mewn rhaglenni, neu mewn cysylltiad â chael deunydd a gynhwysir mewn rhaglenni.

Ystyr "gyda chyfiawnhad":

Mae ystyr penodol i "gyda chyfiawnhad" yn yr adran hon. Golyga lle mae darlledwyr yn dymuno cyfiawnhau achos o dorri preifatrwydd fel achos gyda chyfiawnhad, dylent fod yn gallu dangos pam yn amgylchiadau penodol yr achos, ei fod yn achos gyda chyfiawnhad. Os mai'r rheswm yw ei fod er diddordeb y cyhoedd, yna dylai'r darlledwr allu dangos bod diddordeb y cyhoedd yn gorbwyso'r hawl i breifatrwydd. Byddai enghreifftiau o ddiddordeb

cyhoeddus yn cynnwys datgelu neu ganfod trosedd, amddiffyn iechyd neu ddiogelwch cyhoeddus, dinoethi honiadau camarweiniol yn cael eu gwneud gan unigolion neu sefydliadau neu ddinoethi anallu sy'n effeithio ar y cyhoedd.

### Arferion i'w dilyn (8.2 i 8.22)

### Bywydau preifat, mannau cyhoeddus a disgwyliad dilys o breifatrwydd

Ystyr "disgwyliad dilys o breifatrwydd":

Bydd disgwyliadau dilys o breifatrwydd yn amrywio yn ôl man a natur y wybodaeth, y gweithgarwch neu amod dan sylw, y graddau ei fod yn hysbys yn gyhoeddus (os o gwbl) ac a yw'r unigolyn dan sylw eisoes yn llygad y cyhoedd. Gall fod amgylchiadau lle gall pobl ddisgwyl preifatrwydd yn rhesymol hyd yn oed mewn man cyhoeddus. Gall rhai gweithgareddau neu amodau fod o natur mor breifat y gallai ffilmio neu recordio, hyd yn oed mewn man cyhoeddus, olygu torri ar breifatrwydd. Mae pobl sy'n destun ymchwiliad neu sydd yn llygad y cyhoedd, a'u teulu uniongyrchol a'u ffrindiau, yn cadw'r hawl i fywyd preifat, er y gall ymddygiad preifat godi materion sydd o ddiddordeb dilys i'r cyhoedd.

8.2 Ni ddylai gwybodaeth sy'n datgelu lleoliad cartref neu deulu person gael ei datgelu heb ganiatâd, oni ellir cyfiawnhau hynny.

8.3 Pan gaiff pobl eu dal mewn digwyddiadau y mae'r newyddion yn rhoi sylw iddynt, mae ganddynt hawl i breifatrwydd o hyd yn y broses gwneud rhaglen a'r darlledu, oni bai y gwarentir torri ar y preifatrwydd. Mae hyn yn berthnasol i'r adeg pan fydd y digwyddiadau hyn yn digwydd ac i unrhyw raglenni diweddarach sy'n ailymweld â'r digwyddiadau hynny.

8.4 Dylai darlledwyr sicrhau nad yw geiriau, delweddau neu weithredoedd sy'n cael eu ffilmio neu'u recordio mewn man cyhoeddus, neu'u darlledu o fan cyhoeddus, o natur mor breifat ei bod yn ofynnol cael cydsyniad ymlaen llaw cyn darlledu gan yr unigolyn neu'r sefydliad dan sylw, oni warentir darlledu heb eu cydsyniad.

### Cydsyniad

8.5 Dylai unrhyw achos o dorri preifatrwydd wrth wneud rhaglen fod gyda chydsyniad y person a/neu'r sefydliad neu fel arall yn bosibl ei gyfiawnhau.

8.6 Pe bai darlledu rhaglen yn torri ar breifatrwydd person neu sefydliad, dylid cael cydsyniad cyn darlledu'r deunydd perthnasol, oni warentir yr achos o dorri ar breifatrwydd. (Tybir bod y rheiny sy'n ffonio sioeau ffonio-i-mewn wedi rhoi caniatâd i ddarlledu'u cyfraniad.)

8.7 Os oes achos o dorri ar breifatrwydd unigolyn neu sefydliad, a'u bod yn gofyn bod y ffilmio, y recordio neu'r darllediad byw yn cael eu stopio, dylai'r darlledwr wneud hynny, oni warentir parhau.

8.8 Wrth ffilmio neu recordio mewn sefydliad, cymdeithasau neu asiantaethau eraill, dylid cael caniatâd gan yr awdurdod neu reolwyr perthnasol, oni ellir cyfiawnhau ffilmio neu recordio heb ganiatâd. Ni fydd yn ofynnol fel arfer cael cydsyniad unigol cyflogeion neu eraill y mae eu hymddangosiad yn ddamweiniol neu lle maent yn eu hanfod yn aelodau anhysbys o'r cyhoedd.

- Fodd bynnag, mewn mannau sensitif potensial fel ambiwlansys, ysbytai, ysgolion, carchardai neu orsafoedd yr heddlu, dylid cael cydsyniad ar wahân fel arfer cyn ffilmio neu recordio ac ar gyfer darlledu o'r sefyllfaoedd sensitif hynny (oni ellir cyfiawnhau peidio â chael cydsyniad). Os na fydd modd adnabod yr unigolyn yn y rhaglen, yna ni fydd yn ofynnol cael cydsyniad ar wahân ar gyfer darlledu.

**Casglu gwybodaeth, sain neu ddelweddau ac ailddefnyddio deunydd**

8.9 Rhaid i'r dull o gael gafael ar ddeunydd fod yn gymesur ym mhob un o'r amgylchiadau, ac yn benodol i ddeunydd pwnc y rhaglen.

8.10 Dylai darlledwyr sicrhau nad yw ailddefnyddio deunydd, h.y. defnyddio deunydd a ffilmiwyd neu a recordiwyd yn wreiddiol at un diben ac a ddefnyddir wedyn mewn rhaglen at ddiben arall neu a ddefnyddir mewn rhaglen ddiweddarach neu raglen wahanol, yn creu achos o dorri preifatrwydd yn ddiwarant. Mae hyn yn berthnasol i ddeunydd a gafwyd gan eraill a deunydd y darlledwr ei hun.

8.11 Ni ddylai ffilmio neu recordio dirybudd ar gyfer rhaglenni ffeithiol ddigwydd oni bai bod cais am gyfweliad wedi'i wrthod neu na fu modd gofyn am gyfweliad, neu fod rheswm da i gredu y bydd ymchwiliad yn cael ei rwystro o fynd i'r afael â'r pwnc yn agored, ac y gellir cyfiawnhau ffilmio neu recordio dirybudd. Fodd bynnag, gall darlledwyr fel arfer, heb rybudd ymlaen llaw, gyfweld, ffilmio neu recordio pobl yn y newyddion pan fyddant mewn mannau cyhoeddus.

(Gweler "arfer i'w dilyn" 8.15.)

Ystyr "ffilmio neu recordio dirybudd":

Ystyr ffilmio neu recordio dirybudd yw ffilmio neu recordio cyfweliad neu ymgais i gyfweld â rhywun, neu gyhoeddi bod galwad yn cael ei ffilmio neu'i recordio at ddibenion darlledu, heb unrhyw rybudd ymlaen llawn. Nid yw, fodd bynnag, yn cynnwys barn y bobl (samplu barn y cyhoedd ar hap).

8.12 Gall darlledwyr recordio galwadau ffôn rhwng y darlledwr a'r parti arall os ydynt, o ddechrau'r alwad, wedi nodi pwy ydynt, wedi esbonio diben yr alwad a bod yr alwad yn cael ei recordio i'w darlledu o bosibl (os mai felly y mae) oni ellir cyfiawnhau peidio â gwneud un neu fwy o'r arferion hyn. Os daw'n eglur yn ddiweddarach y bydd galwad sydd wedi'i recordio yn cael ei darlledu (ond nad esboniwyd hyn i'r parti arall pan wnaethpwyd yr alwad), yna mae'n rhaid i'r darlledwr gael cydsyniad cyn darlledu gan y parti arall, oni ellir cyfiawnhau peidio â gwneud hynny.

(Gweler "arferion i'w dilyn" 7.14 ac 8.13 i 8.15.)

8.13 Dylai ffilmio neu recordio llechwraidd gael eu defnyddio'n unig lle caiff ei warantu. Fel arfer, gellir ei gyfiawnhau'n unig:

- os oes tystiolaeth prima facie o stori sydd o ddiddordeb cyhoeddus;
- os oes sail resymol i amau y gellid cael gafael ar dystiolaeth berthnasol bellach; ac
- ei fod yn angenrheidiol i hygrededd a dilysrwydd y rhaglen.

(Gweler "arferion i'w dilyn" 7.14, 8.12, 8.14 ac 8.15.)

Ystyr "ffilmio neu recordio llechwraidd":

Mae ffilmio neu recordio llechwraidd yn cynnwys defnyddio lensys neu ddyfeisiadau recordio hir, yn ogystal â gadael camerâu neu ddyfais recordio heb oruchwyliwr ar eiddo preifat heb gydsyniad llawn a gwybodus y deiliaid neu'u hasiant. Gall gynnwys hefyd recordio sgyrsiau ffôn heb yn wybod i'r naill barti na'r llall, gan barhau recordiad yn fwriadol pan fydd y parti arall yn meddwl ei fod wedi dod i ben.

8.14 Dim ond pan fydd wedi'i warantu y dylid darlledu deunydd a gafwyd drwy ffilmio neu recordio llechwraidd.

(Gweler hefyd “arferion i’w dilyn” 7.14 ac 8.12 i 8.13 ac 8.15.)

8.15 Gellir gwarantu ffilmio neu recordio llechwraidd, ffilmio neu recordio dirybudd neu alwadau ‘cynhyrfu’ a recordiwyd i gael deunydd at ddibenion adloniant os yw’n gynhenid i’r adloniant ac nad yw’n gyfystyr â thorri’n sylweddol ar breifatrwydd i’r graddau ei fod yn achosi blinder, gofid neu embaras sylweddol. Ni ddylid darlledu’r deunydd canlyniadol heb gydsyniad y rheiny sy’n gysylltiedig. Fodd bynnag, os nad oes modd adnabod yr unigolyn a/neu’r sefydliad yn y rhaglen, yna ni fydd yn ofynnol cael cydsyniad i ddarlledu.

(Gweler “arferion i’w dilyn” 7.14 ac 8.11 i 8.14.)

### Dioddefaint a gofid

